Angor Ebrill 1-12 9/7/14 14:17 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 35. RHIF 11 EBRILL 2014 50c

# Dathlu Gŵyl Ddewi ym Manceinion

## *Stori a lluniau gan Elwyn Evans*

Ar ôl bron i ddeugain mlynedd o gynnal ein cyngerdd blynyddol i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Coleg Cerdd daeth tro ar fyd a bu raid i ni symud allan. Flwyddyn yn ôl fe gawsom y rhybudd y byddai'r neuadd yn y Coleg yn cael gweddnewidiad, a hyn i ddigwydd rywdro yn ystod 2014. Trychineb!, a hon yn flwyddyn pan oedd y 1af o Fawrth yn disgyn ar ddydd Sadwrn. Am rai misoedd nid oedd sicrwydd pa bryd y byddai'r gwaith yn dechrau, a ninnau yn gobeithio na fyddai pethau'n symud tan y 3ydd o Fawrth beth bynnag, ond nid felly y bu. Dechreuodd y gwaith o wagio'r neuadd yn fuan yn Ionawr ac ni fydd ar gael yn awr i neb tan yr Hydref.

Anodd oedd trefnu cyngerdd heb fod yn sicr o leoliad, a'r peth cyntaf wrth gwrs oedd gwynebu'r cwestiwn o gynnal cyngerdd o gwbl. Byddai'r neuadd yn y Coleg Cerdd yn dal oddeutu 450, ac er fod nifer ein cynulleidfa wedi bod yn gostwng yn ddiweddar, eto cawsom tua 350 i ddod yn 2013. Beth i wneud yn 2014 ? 'Doedd dim neuadd addas arall ar gael o'r maint yma gyda'r un cyfleusterau ag yr oeddem wedi arfer gael yn y Coleg Cerdd. Eto, petaem yn rhoi gorau i'r cyngerdd am flwyddyn,



*Elfair Grug Dyer gyda'i thelyn*



*Côr Gore Glas yn Eglwys Emmanuel*

**YN Y RHIFYN HWN:**

Teyrnged i Mrs Glenys Daniels – Newyddion o Eglwysi Bethania, Bethel, Seion, Cymdeithas Cymry Birkenhead – Cloc yr Amserau – Taro Post – Myfyrdod y Mis – Cofleidio Cymru

pwy a wyr faint o gynulleidfa fyddai yn 2015 ? Wedi trafod y sefyllfa yn un o gyfarfodydd y Gymdeithas Gymraeg, penderfynwyd i geisio trefnu cyngerdd yn eglwys Emmanuel yn Didsbury – lle a ddefnyddid yn aml ar fore Sadwrn ar gyfer cyngherddau gan efrydwyr o'r Coleg Cerdd, a lle y cawsom ni gyngerdd agoriadol i dymor y Gymdeithas o dro i dro.

Yn syth fe gafodd 'Plan B' broblem pan ddarganfyddwyd nad oedd yr eglwys ar gael ar nos Sadwrn, 1af o Fawrth, a dyna sut y cawsom ein cyngerdd ar yr 22ain o Chwefror eleni. Pleser oedd cael croesawu Côr Gore Glas atom o dan eu harweinydd Magwen Pughe. Dyma'r côr ddaeth atom ym mis Medi 2007 i gynnal cyngerdd (hefyd yn Emmanuel) a gododd fil o bunnoedd ar gyfer hospis yn Didsbury i blant difrifol wael. Michaela Parry oedd enillydd ein Gwobr Ganu yn y Coleg yn 2013 ac fe ganodd hi yn swynol dros ben. Cwblhawyd y rhaglen gyda chyfraniad syfrdanol ar y delyn gan Elfair Grug Dyer, hithau yn enillydd y Rhuban Glas Offerynol yn Eisteddfod Genedlaethol 2013. Dau gant o docynnau yn unig a argraffwyd a bu raid siomi rhai a fuasai wedi hoffi bod yn bresennol, ond 'does dim amheuaeth fod y rhai oedd yn bresennol wedi cael noson i'w chofio.


*Y gynulleidfa yn ymuno yn y gân*


*Michaela Parry*


*Magwen Pughe wrth ei gwaith*



Golygyddol

# CRWYDRO'R CYMDEITHASAU – *gan D. Ben Rees*

Yn ystod gaeaf eleni cefais y fraint o ymweld â phedair Cymdeithas Gymraeg lewyrchus sydd o fewn talgyrch *Yr Angor*, asgwrn cefn ein Cymreictod yn Sir Gaerhirfryn a Sir Gaer. Pan ddeuthum gyntaf i'r Glannau yn niwedd y chwe-degau yr oedd Cymdeithas Lenyddol yn perthyn i bob capel a Chymdeithas Gymraeg, nid yn unig yn Lerpwl, Penbedw, Manceinion, ond hefyd yn Wallasey, Ellesmere Port, Runcorn, Bolton, Blackburn a Southport. Peidiodd y rhain dros y blynyddoedd gyda'r ecsodus a'r colledion a ddaeth i'n rhan.

Derbyniais wahoddiad i Gymdeithas Cymry Lerpwl, cymdeithas y mae gennyf ddyled aruthrol iddi. Pan symudais i Lerpwl yr oedd y Cymry Cymraeg yn rhan o ddwy Gymdeithas. Byddai Aelwyd yn cyfarfod yn wythnosol a'r Gymdeithas Gymraeg yn fisol. Cychwynodd yr Aelwyd oddeutuy 1941 ac ym mis Ionawr 1942 daeth gorfodaeth ar i bobl ifanc ymaelodi mewn mudiad ieuenctid, ac felly dyna ysbardun i'r ifainc gofrestru gyda Urdd Gobaith Cymru ac ymuno ag Aelwyd. Ffurfiwyd tair Aelwyd yn ddiymdroi, Anfield yn cyfarfod yng nghapel Newsham Park; Bootle yn Stanley Road, a'r De yn ystafelloedd Undeb Cymry Fydd yn Upper Parliament Street. Pinacl y cyfan hyn oedd yr Eisteddfod gyntaf yn Neuadd Picton fis Mai 1943, a'r Gymanfa Ganu ym mis Medi, a Dan Jones, yr arweinydd carismatig o Bontypridd yn arwain a Eddie Evans (cyfansoddwr tôn Pantyfedwen) wrth yr organ. Chwaeraodd y Gweinidogion ran amlwg – fel y Parchg. Llewelyn Jones a Lewis Edwards, beirdd fel Collwyn, a bobl busnes fel Meirion Evans, Bootle. Yr unig un sydd yn dal yn ein plith o'r to yma, yn Bootle, ar ôl ymadawiad Nan Lewis, ydyw Peggy Quayle, Crosby. Yn y De yr oedd y Parchedig Oswy Davies, E. E. Williams a J. Morgan Parry (tad Charles Morgan Parry, y naturiaethwr) yn llawn gweithgarwch. Ac yna yn 1944 cyhoeddodd yr Aelwydydd (erbyn hyn yr oedd Aelwyd Penbedw ac Ellesmere Port) mewn bodolaeth, *Y Glannau* yn fisolyn i Gymry'r Glannau. Dyna'r cefndir, ond y newydd da yw fod Cymdeithas Cymry Lerpwl yn dal yn iach, ac yn sicr wedi ennill llawer mwy o aelodau ers pan symudwyd o ganol y ddinas i Ganolfan y Cymry yn Auckand Road ger Penny Lane. Rhaid talu gwrogaeth i Roderick Owen, y Llywydd a'i briod Norma Lloyd Owen sydd yn gofalu fod yna raglen dda, llawer o'r darlithiau a nosweithiau yng ngofal aelodau o'r Gymdeithas, fel Dr. Pat Williams, Dr. John G. Williams, Devida Broadbent, Y Llywydd a Brian Thomas. Gofynnwyd i mi ddarlithio ar Israel 2013 gyda help y technolegydd llwyddwyd yn rhyfeddol. Cardi arall oedd y Llywydd, Alun Davies, Woolton, un o fechgyn Aberystwyth, a gwnaeth ei waith yn raenus iawn yma. Cymdeithas gwerth perthyn iddi yn 2014.

Rhoddais fy ail ddarlith yng Nghymdeithas Gymraeg Birkenhead, y gymdeithas gryfaf ohonynt i gyd, gan fod nifer dda o ddysgwyr yn mynychu y Gymdeithas hon. Y mae patrwm y Gymdeithas yn wahanol gan fod y Llywydd yn ei swydd am flwyddyn yn unig, ag ef sydd yn llywio pob cyfarfod, yn cyhoeddi ac yn cyflwyno y wraig neu'r ŵr gwadd. Eleni anrhydeddwyd Bob Jones, nid am y tro cyntaf i'r swydd, ac y mae wrth ei fodd yn cyflawni'r cyfrifoldebau. Rhoddir y dasg o ddiolch ar un o'r aelodau a braf oedd clywed Mrs Marged Jones yn garedig ei geiriau a'i gweithredoedd.

Daeth y trydydd gwahoddiad o Gymdeithas Lenyddol Bethel sydd ers 45 mlynedd a mwy yn hynod o lewyrchus. Rhoddais Ddarlith ar 'Howell Harris yn Llundain o 1739 i 1751', a chyflwynwyd fi gan Ysgrifennydd yr Eglwys, Dr. Pat Williams, sydd yn barod ei chyfraniad. Cafwyd ymateb gwyrthiol eto. Ac yna ar Nos Wener, 14 Chwefror teithiais i Didsbury i Gymdeithas Gymraeg Manceinion i sôn am 'Ddeugain Mlynedd a mwy o Weinidogaethu yn Lerpwl (1968 i 2014)', a braf oedd cael cefnogaeth dda ar noson arw, gaeafol. Y Llywydd oedd Mrs Lois Murphy sydd yn fytholwyrdd ac wedi gwneud ei gwaith cartref fel y disgwylid. Siaradodd yn ddiddorol a mawr yw fy niolch iddi, ac i Mrs Ann Hunt am y trefnu a'r gair caredig o ddiolchgarwch. Dyma un o'r Cymdeithasau hynaf ond fel y nodais ar ddechrau fy sgwrs, y mae hi bellach yn Gymdeithas Gymraeg Manceinion a'r Cyffiniau gan fod nifer dda wedi teithio o gapel Altrincham er mwyn cefnogi. Diolch am bob un sy'n barod i gerdded yr ail filltir yn hanes y Cymdeithasau hyn.

**CYFARFODYDD YN SAESNEG – CROESO I BAWB**

## URDD Y GRADDEDIGION: PRIFYSGOLION A CHOLEGAU CYMRU

***GUILD OF GRADUATES: UNIVERSITIES & COLLEGES IN WALES***

Forthcoming meetings of the Liverpool Branch at the Welsh Centre,
Heathfield Road/Auckland Road, Allerton, L15 ***(Admission £2.00)***

**Monday April 7th 2014 at 7.00pm (please note time) - (7-4-2014)**
Yr Athro/Professor Helen Fulton
Professor of Medieval Literature, Centre for Medieval Studies, University of York, will speak on
***"TROY IN WALES: CULTURAL TRANSMISSION IN MEDIEVAL BRITAIN"***

**Monday May 19th 2014 at 7.30pm (19-4-2014)**
Yr Athro/Professor Mari Lloyd-Williams
Institute of Psychology, Health & Society, University of Liverpool, will speak on
***"AGEING AND THE WELFARE STATE"***

***<u>Coffâd</u>***

# Mrs Glenys Daniels

## Gateacre, Lerpwl (1950-2014)

**Cofiaf fy ymweliad cyntaf yn 1968 a chartref Glenys yn 20 Centreville Road, Allerton, stryd a oedd yn niwedd y chwe-degau ag o leiaf wyth teulu Cymraeg yno. Un o Eifionydd oedd ei thad Emrys Williams, crefftwr ardderchog ac yn hynod o annwyl, a'i mam yn hannu o Rhosesmor yn Sir y Fflint, Hannah Williams a fu yn nyrs odidog yn Ysbytai Sefton a Mossley Hill. Yr oedd y teulu yn ffyddlon i Gapel Heathfield Road a meithrinwyd Glenys yng nghyfnod y Parchedig E. Watkin Jones ym mywyd yr Ysgol Sul, y Gorlan a'r oedfaon. Merch yn y chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Aigburth Vale oedd hi pan ddeuthum i'w hadnabod gyntaf, annwyl dros ben a gwên gyfareddol ganddi, gwên a fu yn rhan o'i phersonoliaeth ar hyd y blynyddoedd. O Ysgol Aigburth Vale fe'i derbyniwyd hi yn fyfyrwraig i Goleg Sant Martin yn Lancaster ac yno y gwnaeth rhagor o ffrindiau. Byddent yn cyfarfod bob blwyddyn mewn Ad-uniad, a gwnaethpwyd hynny am y 30 mlynedd diwethaf yn ddi-fwlch. Yr oedd ganddi ffrindiau oes o Ysgol Gynrdd Mosspits a Aiburth Vale. Meddai ar ddawn i wneud ffrindiau a'i cadw. Daeth yn ôl i Lerpwl i ddysgu i ddechrau yn Ysgol Banks Road yn Garston, symudodd oddi yno i Ysgol Millwood yn Speke, bu am gyfnod byr yn Stonebridge, cyn ei apwyntio yn Brifathrawes Ysgol Gynradd Wellbourne yn Norris Green yn 1991.**

**Arhosodd yno hyd ei ymddeoliad yn 2010, cyfnod o 19 mlynedd a gwadawodd ei marc yn fawr ar y disgyblion ac yn wir ar awyrgylch yr Ysgol. Nid yw Norris Green yn faesdref hawdd llwyddo ynddi fel addysgydd, ond ymhell cyn iddi ynddeol yr oedd hi wedi gwneud Wellbourne yn Ysgol hapus a llwyddannus gydag enw da yn yr holl gymdogaeth.**

**Ar ôl marwolaeth ei thad yng nghanol y saithegau, cyfarfu Glenys gyda athro o'r gymuned Iddewig, Phil Daniels, a chefais y cyfle i fendithio'r priodas yn 1980. Bu'r bartneriaeth yn un ardderchog, ac y mae Phil Daniels wedi cyfrannu yn helaeth iawn i'r byd addysgol, ac yn**



*Glenys Daniels*

**Brifathro Ysgol Gynradd Springwood ers blynyddoedd. Ganwyd iddynt fab Peter W. Daniel yn 1985, a chefais y cyfle i'w fedyddio ef i gapel Bethel. Gwnaeth ei fam ei gorau i'w feithrin ar lwybrau'r Ysgol Sul ac y mae gennyf atgofion amdanynt yng ngweithgareddau'r Ysgol Sul. Y mae Peter wedi etifeddu gwên hudolus ei fam, a hawdd ei adnabod, a chydymdeimlir yn fawr ag ef a'i ddyweddi Lesie sydd yn bwriadu cartrefu yn y dyfodol agos yn Allerton.**

**Cafodd Glenys a Phil eu cartref cyntaf yn Childwall cyn symud yn 1988 i Gateacre, a rhoddi'r enw Bodwyn ar ei chartref, hynny yn atgoffa hi o'i phlentyndod pan y byddai yn y pumdegau yn aros gyda teulu ei thad yn Chwilog. Yr oedd yn Gymraes trwy ei haelodaeth ym Methel a'i haelioni at yr achos a gwn y bydd hynny yn parhau. Pontiodd yn hawdd y ddwy gymuned a'i derbyn llawer gan deulu niferus ei phriod. Cofiaf ei fam, ac am y bymtheg mlynedd diwethaf byddent yn cyfarfod yn nhŷ un o'r teulu bob mis. Gwerthfawrogai Glenys hynny yn fawr iawn. Edrychai ymlaen i'w gwyliau blynyddol, a byddent yn teithio blwyddyn ar ôl blwyddyn i Majorca i ymlacio cyn gwynebu ar alwadau a gofynion ei galwedigaeth.**

**Blwyddyn o ymddeoliad a gafodd cyn gorfod brwydro a chlefyd blin, di-dostur cancr, a gwnaeth hynny yn ddewr gan ddal ati i fyw bywyd mor normal ag y medrai. Gwaethygodd yn nechrau'r flwyddyn a threuliodd ei phen-blwydd ar 17 Chwefror yn Ysbyty Frenhinol Lerpwl.**

**Symudwyd hi ar 25 Chwefror i Hosbis Marie Curie, yn agos i'w chartref, yn Woolton ond dau ddiwrnod y bu yno cyn yr alwad olaf. Llwyddodd Dr John G. Williams i'w harwain ar lwybr gweddi yn Gymraeg, gweithred a olygai gymaint iddi, a chynhaliwyd yr arwyl ar fore Gwener, Mawrth 7 yng Nghapel Bethel ac yn dilyn yn Amlosgfa Springwood a daeth cynulleidfa fawr iawn ynghyd i'r gwasanaeth dwyieithog o dan fy ngofal gyda Mrs M. Anwyl Williams wrth yr offeryn. Cofiaf gyda diolch am ei bywyd cyfoethog.**

***D. Ben Rees***

# CORNEL Y TRYSORYDD

## EBRILL 2014

| | |
|---|---|
| MRS EIRA PARI-HUWS, PORTHAETHWY | £25.00 |
| MR A MRS ALAN ROBERTS, BAE COLWYN | £15.00 |
| MRS MAIR C. WILLIAMS, BAE CEMAES | £12.00 |
| MR A MRS ERYL EDWARDS, LLANUWCHLLYN | £10.00 |
| MRS MAIR NADOLIG JONES, Y BALA | £10.00 |
| MR BEN HUGHES, CHILDWALL | £20.00 |
| **Cyfanswm** | **£92.00** |

*Roderick Owen (Trysorydd)*

*Newyddion o*

# Lannau Mersi a Manceinion

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol a phenderfynwyd ein bod yn 2015 yn ail-drefnu ein cyhoeddiadau mewn cydweithrediad â'n Gweinidog. Yr oedd yn braf derbyn copi o'r Adroddiad Blynyddol a hwnnw wedi ei baratoi yn ofalus a diolchir yn gynnes i'r Golygydd, John P. Lyons, y Trysoryddion Elin a Jim Boyd a'r Ysgrifennydd Ariannol, Mrs Mena Catton am y Stiwardiaeth. Ar Sul, 9 Chwefror cawsom Oedfa Goffa i'n horganydd annwyl, y diweddar Mrs Nan Lewis, Litherland. Cawsom gynulleidfa gref i'r cofio a rhoddwyd coffâd teilwng iawn i Nan gan ei Gweinidog, Dr. D. Ben Rees gan ei bod yn ffrindiau cywir am ei diddordeb mewn llyfrau. Gweinyddiwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd cyn i'r gynulleidfa a'r teulu fynd allan i wasanaeth Daearu Gweddillion Amlosg. Bodlonodd Eglwys Crist i roddi darn o dir ar gyfer hyn, a mawr yw ein diolch fel Eglwys. Dilynwyd gwasanaeth yr Eglwys leol a gwerthfawrogid presenoldeb y Parchg. Margaret Quayle, un a fu yn gyd-aelod Aelwyd Bootle gyda Nan a Bob Lewis. Diolcha merched Nan, sef Elizabeth (Wyddgrug) a Helen (Crosby) am y trefniadau a'r caredigrwydd.

Da oedd gweld ein haelod hynaf Miss Dorothy Willians, Blundellsands wedi medru dod atom ar ôl ei gwaeledd. Deil Mrs Menna Edwards yn anabl i ddod atom oherwydd gwaeledd, a Miss Megan Williams, sydd yn Ysbyty Aintree.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw


Mae yn hyfryd cyhoeddi fod yr aelodau i gyd yn eu cynefin iechyd, a rhai gafodd law drinaethau yn gwella yn dda. Balch ydym o glywed hyn.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da at y Parch Eric Greene. Byddai Mr. Greene yn dod i Seion yn rheolaidd pan yn byw yng Nghaer a chyn iddo fynd i'r weinidogaeth. Wedi ymddeol o'i ofalaeth yn Y Bala, fe aeth ef a Mrs Haf Greene am wyliau i Seland Newydd ac fe darawyd ef yn wael yno. Meddyliwn am Mrs Greene yn ei phryder amdano, ond da cael clywed eu bod yn aros hefo perthnasau ar ôl iddo ddod allan o'r ysbyty. Edrychwn ymlaen i'w weld yn ôl yn ein plith a ninnau yn ei ddisgwyl yn Seion ar y Pentecost.

Manteisiaf ar y cyfle yma i ddymuno Pasg Hapus i bawb, er ei fod yn ddiweddar eleni, bydd ar y trothwy erbyn i'r *Angor* ddod o'r wasg. Pob bendith ar un ac oll.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

'Egluro Emyn' oedd teitl y noson yn Y Gymdeithas Lenyddol ar nos Lun, 10 Chwefror. Cymerwyd rhan gan Mrs Beryl Williams a Mr. Ben Hughes. Roedd Mrs Wena Evans, Lerpwl hefyd i gymeryd rhan, ond ond yw wedi bod yn dda iawn ers peth amser bellach. Dymunwn wellhad buan iddi. Llywyddwyd y noson gan Mrs Elan Jones sydd bellach ym Mhatagonia yn ymweld â'i theulu.



*Ann Griffiths*

Dewisodd Mrs Beryl Williams emyn sydd a mwy o ganu arni nac unrhyw emyn arall, sef emyn mawr Ann Griffiths, "Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd …". Cawsom hanes bywyd Ann Griffiths yn llawn gan Beryl, o'i geni yn Nolwar Fach ym 1776 hyd ei marwolaeth yn 29 oed. Beth tybed a fuasai wedi ei gyflawni pe bai wedi byw i fod yn hŷn? Mae pymtheg o emynau o'i heiddo yng *Nghaneuon Ffydd.* Cadwodd John Hughes, Pontrobert, lawer o'i gwaith gan fod ei briod, Ruth, yn forwyn yn Nolwar Fach. Byddai'n dod ar draws penillion gan Ann ac yn eu dysgu ar ei chof. Cofnodi ei phrofiadau ysbrydol wnai Ann yn ei hemynau. Mae Beryl Williams, wedi bod yn hoff o emynau Ann Griffiths ers pan yn ifanc. Mae'n amlwg yn sôn am ei phrofiadau preifat ei hun yn yr emynau, ac mae'n debyg y buasai'n synnu o wybod eu bod yn dal i gael eu canu heddiw. Cawsom ni fel cynulleidfa ganu ei hemyn mwyaf poblogaidd, "Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd…" gyda Mrs Margaret Anwyl Williams yn cyfeilio.

Gan Mr. Ben Hughes cawsom fraslun o hanes emynwyr y canrifoedd, yn enwedig William Williams, Pantycelyn, ac o'r traddodiad o ganu emynau. Soniodd am y traddodiad o ganu emynau mewn gemau rygbi, gan sylwi y byddant yn gwybod y geiriau i gyd flynyddoedd yn ôl, ond nid felly erbyn hyn. Clywsom yn benodol am yr emynydd Aneurin Prys Williams oedd yn y Coleg ym Mangor yr un adeg â Ben. Dafydd oedd Perganiaedydd Israel, yn canu mawl â'r delyn. Yn y Testament Newydd darllenwn am Iesu Grist a'r disgyblion yn canu emynau ac am Paul a Silas yn gweddïo a chanu mawl. Daeth tro ar fyd gyda'r Diwygiad Protestenaidd a roddodd sylfaen i'r arfer o ganu cynulleidfaol. Yr oedd gan Ben ddehongliad o bwysigrwydd Martin Luther. Mae'n debyg mai emynydd cyntaf Cymru oedd y Ficer Pritchard, Llanymddyfri, a osododd bregethau ar gân. Llwyddodd i gysylltu â'r werin, yn enwedig gyda charolau. Y Perganiedydd yn anad neb arall ddaeth ag emynau yn boblogaidd, a gosod y Beibl fel sylfaen ei fywyd a'i waith. Roedd Isaac Watts wrthi yn Lloegr yr un pryd. Daeth casgliadau o emynau i fod a daeth Cymanfaoedd Canu yn boblogaidd. Roedd llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r Tonic Sol Ffa a ddyfeisiwyd gan John Curwen (1816-1880). Ysgrifennwyd llyfr gan Eleazar Roberts o Lerpwl ar sut i ddysgu y Tonic Sol Ffa. Mae hyn i gyd yn gefndir i'r casgliad presennol ni o emynau, sef



*Eleazar Roberts*

*Caneuon Ffydd*, ac i Ganiadaeth y Cysegr ar y teledu yn ein dyddiau ni. Diolchwn i Mrs Beryl Williams a Mr. Ben Hughes am gyfarfod diddorol.

Gyda dyfodiad Mawrth 1af daeth amser un o uchelbwyntiau ein blwyddyn fel Cymry Lerpwl. Cynhaliwyd Cinio Gŵyl Ddewi Cymry Unedig Lerpwl ar y nos Sadwrn yng Nghlwb Criced Lerpwl yn Aigburth. Paratowyd yr ystafell gan Mrs Gwenfyl Bain a Mrs Lilian Coulthard ac edrychai'n ddeniadol iawn. Roedd y byrddau'n hardd gyda Chennin Pedr a chanhwyllau ac roedd Mrs Gwenfyl Bain wedi medru cael dwy falŵn heliwm yn dangos y Ddraig Goch yr holl ffordd o Ferthyr Tydfil.

Roeddym yn ffodus iawn o gael y Parchedig Robert Parry, Wrecsam, fel ein Gŵr Gwadd gan fod ganddo flwyddyn brysur iawn fel Llywydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain yn 2014. Roedd dros hanner cant ohonom yn y Cinio. Mwynhawyd y lluniaeth yn fawr a chawsom anerchiad ddiddorol iawn gan ein Gŵr Gwadd. Cyflwynwyd ef gan Dr. D. Ben Rees oedd yn ei adnabod ers pan oedd yn blentyn bach bum mlwydd oed, gan fod Dr. Rees yn gyfaill i'w dad ac wedi aros gyda'i rieni droeon ym Morfa Rhuddlan.

Dywedodd Dr. Rees fod gan ein Gŵr Gwadd yr holl rinweddau i fod yn Weinidog da yr Efengyl a'i fod hefyd yn gerddor da, yn organydd ac arweinydd cymanfaoedd canu.

Thema sgwrs y Parchg. Robert Parry oedd 'Cadwyn o Fy Hoff Englynion'. Wrth sôn am y llunieth a fwynhawyd ganddom i gyd, adroddodd i ni englyn Saesneg, sef gras bwyd gyda diweddglo doniol wrth erfyn ar Dduw, *"From indigestion please preserve us"*. Clywsom englyn gan Huw Lloyd a rhan o Englynion Coffa Hedd Wyn gan R. Williams Parry. Braf oedd clywed englyn gan Gwilym Deudraeth i Dwnel y Mersi, englyn i'r Siesta, gan gofio'r Mimosa'n hwylio i Batagonia, ac englyn brathog ar 'Henaint' gan John Morris-Jones. Talodd y Parchg. Robert Parry deyrnged i fro ei fagwraeth, sef Morfa Rhuddlan yng Nghlwyd. Y Falleth oedd enw ei gartref, fferm ei reini. Wedi gweld y ceiliog, dyfynnodd Elwyn Hughes o Lyfr y Diarhebion! Roedd englyn gwych gan Thomas Richards i'r ci defaid a chan R. Williams Parry i Neuadd Goffa Mynytho. Ymysg llawer eraill clywsom am gadwyn o englynion a ysgrifenwyd gan Medwyn Jones am y Parch. D. Hughes Jones (arwr i'r Gŵr Gwadd) ar ei ymddeoliad ac hefyd englyn hyfryd J. Eirian Davies i'r Ymgnawdoliad. Cawsom esiamplau doniol o rai'n ceisio cyfieithu o'r Saesneg i Gymraeg ac hefyd o rai'n cymysgu'r ddwy iaith wrth siarad. Yn ffefryn o englyn gan y Parch. Robert Parry oedd englyn Wiliam Morris, Caernarfon i Tom Nefyn sydd gyda'r diweddglo,

*"O'i bregethau i gyd,*
*Y fwyaf oedd ei fywyd."*

Diweddodd drwy adrodd englyn i'r Sant wrth feddwl am Ddewi, a chlywsom rai o eiriau Dewi Sant ei hun.

Cafwyd diolchiadau addas iawn gan Dr. Pat Williams a soniodd am allu'r Parchg. Robert Parry fel gweinidog ac fel cerddor, ond gan ddweud ein bod wedi cael ei adnabod heno fel digrifwr hefyd. Diolchodd Dr. Pat Williams i bawb a wnaeth y noson yn llwyddiant cofiadwy. Roedd y BBC yn bresennol yn ymdiddan â Dr Rees cyn dechrau'r cinio ac yn ffilmio'r dathliad yn llawn. Bydd yr hanes ar *Newyddion Naw* S4C ar Fawrth 10fed. Gadawodd pawb y Clwb Criced Lerpwl wedi cael mwynhad a bodlondeb llwyr.

Tristwch mawr oedd derbyn y newydd am farwoleth ein haelod, Mrs Glenys Daniels, Gateacre, 27 Chwefror yn 64 mlwydd oed, a chawn gyfle yn y rhifyn hwn i dalu deyrnged i'w bywyd yn llawn a gwerthfawr.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Roedd hi'n noson "Brethyn Cartref' ar Chwefror 3ydd yng nghwmni athro ac awdur, saer llongau ac artist, milwr a cherddor – sef Dafydd Roberts, Bob Jones a Gareth Hughes. Cawsom ein tywys o wlad y Cofi a Lerpwl, drwy bentrefi cefn gwlad Cymru, i wledydd Ewrop a'r dwyrain canol ar siwrne hwyliog a difyr.

Dafydd 'Cofi' Roberts oedd ein siaradwr cyntaf gyda'i atgofion am fywyd Cymry ifanc Lerpwl yn y chwe a saithdegau mewn tri man cyfarfod yn y ddinas sy'n gofiadwy i lawer o'n aelodau: Tafarn y Nant (Brook House), Theatr Neptune ac Aelwyd Anfield.

Cododd atgofion a chwerthin wrth ddisgrifio troeon trwstan cystadleuaethau dramau Aelwydydd Lerpwl yn y Neptune, a'i brofiadau yn difyrru'r alltudion gyda'i adroddiadau 'Co Bach' fyth gofiadwy a'i "Nuke Box Jury" yn gwawdio caneuon 'pop' y cyfnod. Diweddglo ei sgwrs, ar gais Mrs Anne S. Jones, oedd datganiad Dafydd o un o gerddi'r "Co Bach". Yn ei gap fflat a'i dafodiaeth gynhenid, rhoddodd bleser arbennig inni wrth gofio darllediadau'r Noson Lawen a dychmygu'r "hen fodan yn i miglo hi lawr dre i wario mags yn Caffi Maj."

Cafodd Bob Jones blentyndod ddelfrydol ymysg bryniau a meysydd ardal Cerrig y Drudion, pentref uniaith Gymraeg gyda pymtheg o siopau, tri o gapeli, tair gwesty, a phoblogaeth yn ymfalchïo yn "y pethe". Disgrifiodd ddyddiau hyfryd plant y fro yn pysgota, saethu cwningod (a'u bwyta) chwarae a chrwydro caeau a choedwig mewn rhyddid.

Aeth i ysgol eilradd yn Llangollen lle bu rhaid lletya dros yr wythnos gyda Mr a Mrs Llewelyn Evans, teulu gafodd argraff mawr ar y llanc ifanc. Yma y dysgodd siarad Saesneg, cyfarfod cerddorion o "Sketchoslavagia", a chyfarfod â Mrs Rowe. Roedd Mr Rowe yn fforman yn Cammell Lairds, a dyma'r cysylltiad agorodd y drws nesaf yn ngyrfa Bob. Er nad oedd ei dad yn hollol fodlon ar y dewisiad, cytunodd i'w fab fynd yn brentis fel "shipwright" yn ninas fawr Penbedw. Un amod o'r brentisiaeth oedd i Bob fynychu ysgol nos, mawr yw ei edmygedd o'r addysg a gafodd yno, a'i ddyled am iddo osod sylfaeni ei flynyddoedd gwaith a'i ddiddordebau cyffredinol.

Ein trydydd siaradwr oedd Gareth Hughes, yr utganwr o Gwm Penmachno. Eto clywsom am blentyndod hapus mewn teulu cefnogol yn mro bryniau'r llechi a bywyd y chwarel. Aeth Gareth i ysgol Ramadeg, Llanrwst, ac yno ei hoff bynciau oedd Saesneg a Daearyddiaeth, ond ei wir bleser oedd cerddoriaeth o bob math. Pan welodd un o'r teulu, hysbysiad o'r fyddin am rhai oedd a diddordeb mewn cerddoriaeth, dyma ymgeisio, ac yn un ar bymtheg oed, gadawodd y Cwm am y tro cyntaf i fynd i Lundain ac oddiyno i Colchester lle yr ymunodd a'r Royal Berkshire Regiment. Yno cafodd addysg gerddorol a dysgu chwarae'r utgorn reit gyflym. Dyma lle y ffendiodd Gareth ei yrfa a'i ddyfodol – fel aelod o fandiau'r fyddin. Roedd ei dalent a'i fwynhad yn amlwg, a thrwyddynt agorwyd drysau i wledydd tramor a phrofiadau eang a chyffrous. Wedi cyfnod yn yr Almaen a Malta, dyma gyfle i berffeithio ei addysg gerddorol drwy ddilyn cwrs yn Kneller Hall, Royal Military School of Music gan arbenigo yn yr utgorn

Wedi hyn, trafeiliodd Gareth yn eang, gan gynnwys Cyprus yn adeg helynt yr EOKA, llawer rhan o Ewrop a Lloegr. Wedi gadael y fyddin a dychwelyd i'r ardal hon, ymunodd Gareth â band pres Cammell Lairds ac ennill y wobr gyntaf allan o dros ugain band arall mewn cystadleuaeth cenedlaethol. Mwynhaodd flynyddoedd o berffonnio gydag amryw o fandiau yn lleol ac yng Nghymru lle y cyfarfu â Harry Secombe ac Owain Arwel Hughes ymysg eraill. Wedi trawiad ar y galon, distawodd yr utgorn ac ymddeolodd Gareth i fywyd o drafeilio gyda Gwenda, ymlacio a gwrando ar eraill yn ei ddiddanu.

Yn ei diolchiadau mynegodd Mrs Iola Edwards ei hedmygedd o'r holl dalentau

sydd ar gael yn ein Cymdeithas. Gyda tri sgwrs mor amrywiol a difyr amlygwyd y talentau eto a synnwyd ni gan brofiadau eang y tri cyfaill. Rhoisant hwyl, pleser, a gwybodaeth inni ar noson lwyddianus iawn.

Nid oes teitl, yn y rhaglen, i'n cyfarfod ar Chwefror 17eg, felly byddaf mor hyf a rhoi "melys gwrdd a hen gyfeillion" yn bennawd ar noson gofiadwy yng nghwmni'r Athro Hywel Wyn Owen, Llandegfan, Môn, a'i wraig Rhian. 'Roedd croeso twymgalon i gyfaill annwyl iawn o ddyddiau ieuenctid. Mae llawer ohonon yn cofio ei rieni, Mr a Mrs Elfed Owen fel athrawon ysgol Sul, aelodau gweithgar capeli Parkfield a Salem a chefnogwyr popeth Cymraeg yn Mhenbedw. Clywsom atgofion lu am ddyddiau'r ysgol Sul, aelwyd a chyfeillgarwch plentyndod, a rhannu atgofion Hywel am ddyddiau'r "blitz" ar y glannau, parti drama Walter Rees Jones ac oriau hapus yn cyd-ganu a chyd-chwarae. Cydnabyddodd Hywel ein dyled fel cenhedlaeth i gapeli, cymdeithasau, ac yn arbennig, rhieni diwylliedig a magwraeth Cristnogol cadarn.

Gŵyr pawb am gwrs academaidd a llwyddianus yr Athro ym myd addysg ac yn ei arbenigrwydd yn olrhain gwreiddiau a thariad enwau lleoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae ei ymchwiliad trylwyr a manwl dros y blynyddoedd a'i ymroddiad i'w bwnc ar gael yn ei gyhoeddiad dysgedig *"Dictionary of the Place Names of Wales"*.

Yn ystod yr awr nesaf dyma ni'n cael ein tywys drwy hanes a rhamant enwau trefi, pentrefi, ffermydd, tirwedd a chartrefi yng Nghymru ac yn yr ardal hon. Mae hudoliaeth iaith wedi gafael yn Hywel erioed, a chyflwynodd i ni y swyn mewn dwy ystyr; cyfaredd a thwyll.


Fel mae rhoi enwau yn datblygu dros amser, mae eraill yn coffau digwyddiadau hanesyddol fel "*Welsh Streets*" Lerpwl, enwau llongau ym Mhenbedw, effaith y Llychlynwr mewn enwau yn diweddu gyda – *by* yma ar y glannau. Un arbennig yw tarddiadd yr enw Wallasey – sef ynys y Walles, y Cymry. Hefyd ceir enwau yn coffau tirwedd, felyn "Ler pool", (slow moving tidal creek), Hoylake (poncan tywod), Landican (Llan Tegan).

Llifodd yr engreifftiau a'r enwau allan a swynwyd ninnau hefyd gan farddoniaeth a hanes iaith, ac athrylith a brwdfrydedd Hywel. Nid darlith academaidd trwm a gawsom ond sgwrs gartrefol diymhongar yn llawn hiwmor, a chysyslltiadau cyfarwydd. Fe agorwyd ein llygaid a'n gwneud yn fwy ymwybodol o hanes a rhamant geiriau ei hiaith.

Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Eira Hughes. Cyfeiriodd at atgofion ein haelodau am Hywel a'i deulu ac am ein cynefin ac ardaloedd annwyl yng Nghymru. Gwnaeth Hywel ddau beth doeth – yn mynd yn ôl i fyw yng Nghymru, ac yn dewis gwraig o ysgol Brynrefail! Mynegodd Eira ein gwerthfawrogiad a'n mwynhad o noson arbennig iawn yn ein hanes.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Ar Chwefror 5ed cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Alwyn Ifans yn sôn am ei waith gyda Ymddiriedolaeth Natur Maldwyn yn gwarchod Gweilch y Pysgod (*Ospreys*) yng nghors Ddyfi ger Machynlleth. Mae Gweilch y Pysgod wedi marw allan o Brydain ers 1917 oherwydd cael eu hela.Erbyn hyn mae 3 phar yn nythu yng Nghymru yn Glaslyn , Pont Croesor ger Porthmadog, Cors Ddyfi a Maentwrog. Adar ysglyfaethus yw y Gweilch sy'n cael eu diogelu gan y wlad. Mae gan yr adar yma draed arbennig gyda 4 crafanc , dau ar y blaen a dau ar y cefn sydd yn ei gwneud yn haws iddynt ddal bysgod yn fwyd. Mae'r Gweilch ym Mhrydain dros yr haf ac yn mudo i Gambia yng Nghorllewin Affrica dros y gaeaf. Mae bob un o'r adar yn cael eu modrwyo a rhai yn cael trosglwyddwr (*transmitter*) ar eu cefn er mwyn gallu cadw cysylltiad a hwy arnynt tra meant yn hedfan i Affrica. Dechreuodd Alwyn yn ei waith yng Nghors Ddyfi yn 2009 ond ni chafwyd wyau yno hyd 2011. Mae'r adar yn dychwelyd i Gymru yn niwedd Mawrth ac yn gadael tua diwedd mis Awst. Mae ond yn cymeryd tua 3 wythnos iddynt hedfan i Gambia. Fe roddir enwau i bob un o'r adar – enwau afonydd o ardal Machynlleth. Mae llawer o ddiddordeb yn y Gweilch yn dilyn y rhaglen boblogaidd '*Springwatch*' ar y teledu ac erthyglau mewn papurau newydd.






*Alwyn Ifans a'r Gweilch*

Atgofion am ei blentyndod a gawsom gan Brian Thomas (Mossley Hill) yr wythnos wedyn. Brodor o Benmachno yw Brian ac Is-Lywydd y y Gymdeithas. Enwyd y pentref ar ôl yr Afon Machno sy'n rhannu'r pentref yn ddau ran ac mae pont, a adeiladawyd yn 1785, yn mynd dros yr afon. Mae'r pennill canlynol wedi ei gerfio ar garreg yng nghanol y bont

*'Pont isal drafal dro – Pont lydan*
*i wladwyr drafaelio*
*pont a fydd mewn Pant tra fo,*
*Pont ar ochor Pen tre fachno'*

Bu'n sôn am ei deulu,ei ffrindiau,yr ysgol, y capel a rhai o bobl y pentref.



*Brian Thomas a'i ddarlith llawn afiaith*

Cawsom olwg hefyd ar nifer o adeiladau pwysig y pentref sef y Capeli a'r Eglwys, y Ffatri Wlân (Hannah Jones & Sons), cof golofn i'r rhai a laddwyd yn y ddau ryfel byd yn cynnwys ewythr i Brian, a'r holl siopau oedd yn y pentref pan oedd yn blentyn ond sydd bellach wedi diflannu. Cawsom wybod am ddiriedi ef a'i ffrindiau a chael hanes y 'gang'. Braf oedd cael cipolwg ar y cyfnod hudolus yma yn ei fywyd.

Angor Ebrill 1-12 9/7/14 14:17 Page 8


# CLOC YR AMSERAU
## *gan John P. Lyons*

Prynwyd y gyfrol ‘Cylch yr Amserau / Circle of Time’ ar ei lansiad gan Mr a Mrs Kynaston aelodau yn eglwys Anglicanaidd Christ Church, Waterloo. Roedd Mrs Winnie Kynaston o dras Gymraeg gyda chysylltiad teuluol ag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Crosby Road South, Waterloo. Cymerasant y cyfle i ddangos eu cefuogaeth i ni Eglwys Bethania, Waterloo a hefyd i anfon y llyfr yn anrheg i’w mab-yng-nghyfraith, sydd yn Gymro ac yn feddyg teulu ym Mae Colwyn.




Ymhen ychydig cawsant air gan Dr Geraint Wynne Jones yn dweud ei fod wedi darllen y llyfr a’i fod wedi etifeddu un o’r clociau y soniwyd amdanynt oedd wedi ei anrhegu i’w dad W. Llewelyn Jones ar ddiwedd y Rhyfel. Nodais yn y llyfr *‘I wonder if any of these clocks still exist’* gan fawr o feddwl y buasai cloc trydan yn goroesi! Anfonwyd y cloc a oedd mewn cyflwr ardderchog ac yn gweithio a chymerwyd llun ohono gan Dr John G. Williams, Bethel.

Cefais air ar y ffôn gyda Dr Geraint am gefndir yr hanes.



Roedd ei dad William Llewelyn Jones yn hanu o Sir Fôn ac wedi iddo raddio yng Ngholeg Normal, Bangor daeth i Lerpwl, fel ac a wnaeth llawer o athrawon o Gymru, ac ymaelododd yng Nghapel Waterloo yn 1937. Bu yn aros am gyfnod yng nghartref y blaenor H. R. Williams ond daeth yr amser yn 1943 pan fu rhaid iddo ymuno a’r lluoedd ac aeth i’r Llu Awyr yn Ne Cymru. Wedi iddo gael ei ryddhau ar ddiwedd y rhyfel dychwelodd i Lerpwl a phriododd yng Nghapel Waterloo gyda Elizabeth Price Jones, aelod o’r capel, ac yn fuan wedi hynny dychwelodd i Fôn yn athro ym Mhorthaethwy ac yna’n Brifathro yn Llandegfan. Byd bychan ynte!

## Cofio Arthur Hughes (1904-1978) Gweinidog yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Ganwyd Arthur Hughes ar 19 Tachwedd 1904 ym Mlaenau Ffestiniog, yn fab David Robert Hughes a Catherine Hughes (née Jones), chwarelwr. Addysgwyd y mab yn yr Ysgol Gynradd, Ysgol Sir, Blaenau Ffestiniog, Coleg Clynnog, Colegau Diwinyddol Aberystwyth a’r Bala. Ordeiniwyd ef yn weinidog yn 1930 i Eglwys Saesneg y Cyfundeb yn y Bermo, sef Christchurch. Oddi yno symudodd i Eglwys Saesneg yr enwad yn Hill Street, Rhosllanerchrugog yn 1938 hyd 1946, a bu am dair blynedd ar Eglwys Saesneg ei hiaith yn Caergwrle. Yna symudodd i Ddyffryn Clwyd, i etifeddiaeth y Cymro gwlatgar Emrys ap Iwan sef, Capel y Rhewl ar lawr y Dyffryn. Gofalai hefyd am gapel bach Llwynedd, y capel lle y bedyddiwyd y Parchedig J Puleston Jones. Bu yn Rhewl o 1949 hyd ei ymddeoliad yn 1974, ond cafodd gyfrifoldeb am Gapel y Tabernacl, Rhuthin o 1969 hyd 1974.

Priododd Luned Griffiths, gwraig nodedig a merch y Parchedig a Mrs John Griffiths, Rhydaman a Choleg y Bedyddwyr Caerdydd yn ddiweddarach. Bu ei thad yn un o arloeswyr y Mudiad Llafur ym maes glo Sir Gaerfyrddin. Bu'r briodas ar 4 Mehefin 1942 yng nghapel Salem y Bedyddwyr, Caerdydd. Ganwyd iddynt ferch Lynette yn 1944 a Gareth yn 1946, a bu ef yn newyddiadurwr ar y *Daily Post* ar hyd ei yrfa, ac am gyfnod byr ar Bwyllgor Gwaith yr Angor. Bu farw Arthur Hughes ar 14 Rhagfyr 1978 yn Rhuthin, a chladdwyd ef ym mynwent y Rhewl, y capel a’r fro a dderbyniodd gymaint oddi wrtho.

Bu’n hynod o weithgar yn yr enwad ar ôl symud i Henaduriaeth gref Dyffryn Clwyd. Gwelwyd ei rinweddau a chafodd gefnogaeth i wasanaethu ar nifer dda o bwyllgorau, a bu’n Llywydd yn 1957. Bu’n Ysgrifennydd Cymdeithsfa’r Gogledd ac yn Llywydd yn 1974, ond oherwydd cyflwr ei iechyd ni chafodd draethu ei anerchiad. Gwelwyd ei ddoniau yng ngweinyddiad y Gymanfa Gyffreindol a galwyd arno fel cofnodydd a gweinyddwr.

Nodweddid ef gan sêl dros waith cymdeithasol. Edmygai ei ewythr Robert Thomas Jones (1874-1940), arweinydd y Mudiad Llafur yng Ngwynedd ac Ysgrifennydd Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru, 1908-33, ac hefyd Aelod Seneddol Llafur dros Sir Gaernarfon, 1922-3. Etifeddodd oddi wrtho ymrymiad cryf i fuddiannau y werin bobl. A bu hyn yn gymhelliad iddo gyfrannu ei hun i anghenion cymdeithas fel Cynghorydd dros Rhewl ar Cyngor Dosbarth Gwledig Rhuthun.

Cyfrifid ef yn bregethwr coeth, yn ysgrythurwr cadarn, bugail gofalus ac un o weinyddwyr mwyaf effiethiol ei genhedlaeth. Medrai ennill y dydd yn hawdd ar y beirniaid gyda'i sirioldeb a’i hiwmor iach. Roedd ei agosatrwydd yn gymorth parod iddo fel gweinidog a gwyddom am ei gymwynasgarwch gwerthfawr ar lefel personol. Bu’n hynod o dderbyniol yn ei enwad gan ei fod yn gwbl rhugl yn y ddwy iaith. Meddai ar ddiddordeb mwy na’r cyffredin mewn pysgota a hefyd llenydda. Gwelid ei ysgrifau yn achlysurol yn newyddiadur a chylchgronau yr enwad. Gwerthfawrogai yn fawr farddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg a medrai ddyfynu yn gyson at ei bwrpas.

Dioddefodd gryn wendid corfforol ond ni fynnai laesu dwylo, a bu'n hynod o deyrngar a ffyddlon i'w gyfrifoldebau

***D Ben Rees***

*Y Bywgraffiadur Cymreig* hyd at 1940 (am ei ewythr R T Jones, t 481); Golygydd R H Evans, *Hanes Henaduriaeth Dyffryn Clwyd* (Dinbych, 1986), aml gyfeiriad at ei wasanaeth; Huw Walters, *Canu Pwll a’r Pulpud: Portread o’r Diwylliant Cymraeg yn Nyfryn Aman* (Dinbych, 1987), cyfeiriad at y Parchedig John Griffiths, t 241, *Blwyddiadur MC* 1979; adnabyddiaeth bersonol, a gwybodaeth fuddiol gan ei ferch a’i fab.

Angor Ebrill 1-12 9/7/14 14:17 Page 9



# TARO POST



*Y Gadair Ddu*

*(Lluniau: Aeron Jones)*

*Swyddfa'r Parc Cenedlaethol*
*National Park Office,*
*Penrhyndeudraeth,*
*Gwynedd LL4B 6LF*

*Annwyl Olygydd,*

Ysgrifennaf atoch ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a phrosiect datblygu Yr Ysgwrn.

Daeth Yr Ysgwrn yn enwog yn 1917, fel cartref y bardd, Ellis Humphrey Evans adwaenir yn well wrth ei enw barddol, Hedd Wyn. Bu farw Hedd Wyn ym Mrwydr Cefn Pilkem ar Orffennaf 31ain, 1917, ae fe'i wobrwywyd chwe wythnos yn ddiweddarach â Chadair Eisteddfod Genedlaethol Penbedw. Ers hynny, adwaenir y gadair fel 'Y Gadair Ddu'. Erbyn hyn, mae'r Ysgwrn yn gartref i'r Gadair Ddu a phum cadair farddol arall enillodd Hedd Wyn mewn eisteddfodau lleol. Ers 1917, mae'r Ysgwrn wedi'i gadw yn y teulu Evans a nai Hedd Wyn, Mr Gerald Williams oedd yr aelod diwethaf o'r teulu i fod yn berchen ar Yr Ysgwrn. Ers marwolaeth Hedd Wyn, croesawyd ymwelwyr i'r Ysgwrn gan ei deulu, gan gadw addewid a wnaed i fam Hedd Wyn, "i gadw'r drws yn agored", i ymwelwyr sydd wedi'u cyfareddu gan ei stori.

Ar Fawrth 1af, 2012, cyhoeddodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'i bartneriaid eu bod wedi sicrhau pryniant Yr Ysgwrn ar gyfer y genedl.

Ar hyn o bryd, rydym yn ceisio ymchwilio i bob elfen o hanes Hedd Wyn a'i waith, gan gynnwys ei gyfnod yn hyfforddi yng ngwersyll Litherland a'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ym Mhenbedw yn 1917. Tybed a oes gan rai o aelodau Cymdeithas Cymry Lerpwl unrhyw wybodaeth am rhain? Tybed a oedd aelodau o deuluoedd rhai o'ch aelodau yn y neuadd pan gyhoeddwyd mai Hedd Wyn oedd enillydd y Gadair Ddu? Oes unrhyw straeon am gludiant y Gadair Ddu o'r orsaf ym Mhenbedw wedi goroesi? Neu efallai fod gennych wybodaeth arbennig am David Evans (noddwr y Gadair Ddu) neu Eugene Vanfleteren (gwneuthurwr y Gadair Ddu).

Byddwn yn hynod falch o glywed gan unrhyw un sydd gan unrhyw wybodaeth i'w rhannu, waeth pa mor fawr neu fach y byddo. Ffôn: 01766 772 517 neu naomi.jones@eryri-npa.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir iawn
Naomi Jones



*Yr ystafell fyw yn Yr Ysgwrn, Trawsfynydd*

**<u>GWAHODDIAD</u>**
i aelodau Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Lenyddol Eglwys Gymraeg Bethel, Auckland Road, Lerpwl 15 ar ***Nos Lun, 28 Ebrill, 2014 am 7.30 o'r gloch*** i baratoi rhaglen ar gyfer tymor 2014-2015.

# Dathlu Gŵyl Ddewi

Deugain mlynedd yn ôl trefnwyd cystadleuaeth llinell goll yn Lerpwl ar Ddathlu Gŵyl Ddewi, a gofelir gwneud hynny o flwyddyn i flwyddyn. Dyma'r pennill a drefnodd y Prifardd W. D. Williams, Y Bala ar ein cyfer yn y saith degau cynnar:

**Petai Dewi ei hun yn dod yno,**
**I'r annerch a'r canu a'r cinio,**
**Beth ddwedai'r hen sant**
**Wrth gyfarch ei blant?**
**………………………………………………**

A chafwyd ymateb gwych, a dyma rhai sy'n haeddu ei cofio.
Dyma ymdrech Prentis B:

***Dros grefydd, ewch allan i weithio.***

Pwrpasol iawn. Wedi'r cyfan cenhadwr oedd Dewi yn gyntaf ac yn bennaf.

Gallaf ddeall Mairwen hefyd:

***Myn brain i, mae'n hen bryd riteirio.***

Ond ar y llaw arall, nid yw cenhadwr go iawn byth yn riteirio. A beth am linell Dewi y Cyntaf:

***Ta, ta, tan flwyddyn i heno?.***

Peidiodd hynny bellach! Y ffyddloniaid Cymraeg, ddwedwn i, sydd yn heidio i'r ciniawa erbyn hyn. Ond dedfryd W. D. Williams oedd fod un llinell yn rhagori o ychydig ar y pymtheg llinell a ddaeth i law, sef

***Parhaed eich brwdfrydedd 'rôl heno.***

A'r buddugol, J. G. Hughes, Mauretania Road, Walton, gŵr tal cydnerth a gofiaf yn dda fel blaenor yng nghapel Anfield Road. Symudodd ef a'i briod yn ôl i Gymru a chofiaf ei gyfarfod droeon yn yr 'hen wlad'.

***Myfyrdod y Mis***

# SADWRN Y PASG

Cefais fy ngeni a'm magu yng nghwm tecaf y cymoedd, gyda phob parch i Gwm Pennant, sef y Porth, Cwm Rhondda. Beth mae'r Rhondda yn gwneud heddiw mae'r byd yn gwneud yfory!! Roedd yn adeg pan oedd crefydd ar i fyny a'r capeli mewn bri ac yn gyfnod pwysig. O adeg Sul y Blodau roedd yn adeg y Cymanfaoedd Canu a'r Cyfarfodydd Pregethu, pob capel yn or-lawn neu "dan ei sang". Ond roedd un peth yn od, os hynny yw'r gair, doedd dim byd yn digwydd ar ddydd Sadwrn y Pasg. Adeg yma o'r flwyddyn mae enw bron ar bob diwrnod ond at y Sadwrn yma di-enw, fedrwch ddweud. Rydw i wedi byw ym Manceinion, Caerdydd a rwan Caerffili a'r un ydy'r stori – dim yw dim! Tybed Pam?

Edrychwch fel mae Iau cyn y Pasg (Maundy) a'i chysylltiad gyda'r Swper Olaf a bradychiad yr Arglwydd Iesu. Mae dydd Gwener y Groglith a chroesholiad a marwolaeth yr Iesu. Yna mae'r Sul a diwrnod y Pasg sy'n dathlu y bedd syfrdanol gwag, y dillad a'r Crist adgyfodedig yn cyfarfod a'r disgyblion. Ond beth am y dydd Sadwrn rhyngddynt? Does dim sôn a does dim enw neillduol oherwydd ni ddigwyddodd ddim byd neu fel yna mae'n edrych beth bynnag. Byddwch yn onest fedrwch chi feddwl am rhywbeth sy'n digwydd? Roedd corff yr Iesu mewn bedd wedi ei selio a milwyr o'i gwmpas fel nad oedd modd i ddilynwyr yr Iesu dwyn y corff ac i fod yn onest dyna'r peth diwethaf oedd ar eu meddwl. Roeddynt yn cadw'n ddistaw a di-stwr wedi cael eu hysgwyd gan ddigwyddiadau'r gorffennol ac mewn ofn i'r dynged ddigwydd iddynt hwy.

Rydyn yn gwybod diwedd y stori ac yn gwybod pryder a phoen y criw bach. Dyna yn wir eu bod wedi rhoi eu gwaith i fyny ac wedi dilyn Ef ond fe welson eu holl obeithion wedi chwalu'n yfflon ar Groes Calfaria. Efallai, pwy a wyr, ar y Sadwrn y daeth y sioc yn fyw iddynt a dyma syrthio i waelodion pwll annobaith – y man isaf. Wel, beth nesaf meddech. Roeddynt wedi dod i'r pen hefyd.

Yn sydyn er bod y cof yn pallu weithiau fe ddaeth imi darn o sgwrs ar y radio cryn nifer o flynyddoedd yn ôl ac fe gofiais fy mod wedi gwneud cofnod ohono a dyma chwilota gyda lwc. Philip Yancey oedd enw'r gŵr, Americanwr mi gredaf, ac roedd y sgwrs yn ystod yr Wythnos Sanctaidd. Yn ystod y rhaglen fe soniodd Yancey am dydd Sadwrn y Pasg. Dywedodd fod dilynwyr yr Arglwydd Iesu tu fewn i "cosmic scale". Hynny yw roeddynt yn disgwyl am addewid y Crist a llwyr cyflawniad o'r adgyfodiad.

Yn fy ystafell fach yma dyma meddwl am y byd sydd ohoni. Wel, mae cyflwr hi'n druenus tu hwnt —ymhell dros ben llestri chwedl Mam – a ydyw gofynnaf yn ostyngedig iawn yng nghanol yr holl ddioddefaint, trueni a gwallgofrwydd a all y Duw Mawr ddod a'r ateb? O'm rhan fy hun mae'r Pasg yn dod a'r ateb yn uchel ac yn glir gyda sicrwydd a phendantwydd. Beth am Sadwrn y Pasg? Mae'n dweud eto mewn Ffydd. Oherwydd rydym yn aros rhwng yr addewid a'r cyflwyniad. Dywed Yancey ei fod yn beth da i gofio yn y Ddrama Fawr Cosmig ein bod yn byw ein dyddiau ar ddydd Sadwrn heb enw mewn disgwyliad a ffydd. Aeth ymlaen i ddweud ei fod mewn mynwent Esgobol yn Louisiana yn chwilio am fedd hen Nain iddo, gwraig duwiol dros ben a bu farw ar Sadwrn Pasg. Yr unig beth oedd wedi ysgrifenu ar y garreg fedd yn ôl ei dymuniad oedd "WAITlNG". I mi? WAIT1NG gyda HOPE!

***ELWYN***

**COFLEIDIO CYMRU**

# Cwmorthin ger Tanygrisiau



Un o ryfeddodau Cymru am rai cenhedlaethau oedd y capeli bychan a welid mewn mannau anghysbell o'r wlad. Adeiladwyd hwy gan ŵyr a gwragedd a oedd, yng nghanol caledi bywyd, yn falch o'u gwaddol ysbryol. Etifeddion y Diwygiad Methodistadd oeddynt a chrefydd yn llywio eu bywyd yn gyfangwbl.

Cynhelid Dyletswydd Deuluol ar yr aelwydydd ac roedd y Sul yn benllanw eu holl ymdrechion. Yna ar nosweithau gwaith cynhelid cyfarfod gweddi a chyfarfodydd i rannu profiadau. Gelwid y rhain yn Seiadau.

Roedd yn amlwg angen canolfannau a mynnodd y gwerinwyr hyn adeiladu capeli yn y trefi a'r pentrefi a chapeli llai yng nghilfachau'r mynyddoedd. Enghraifft dda yw'r capel bychan yng Nghwm Orthin. Mae'n adfail bellach er gofid i bawb a gâr yr etifeddiaeth.

Cofiaf yn dda am ŵr dawnus a drigai yn Nhrethomas ger Caerffili ac a gafodd ei enwi ar ôl Cwm Orthin. Heddychwr a gŵr hirben oedd Orthin Thomas a phob tro y clywaf yr enw Cwmorthin daw bywyd thystiolaeth Orthin i'm cof. Yr oedd yn un o gynhyrchion gorau Ymneilltuaeth Gymraeg a goleuni menwol y Crynwyr wedi ei gyfoethogi.

***D. Ben Rees***

---




Annwyl Olygydd,

Rwy'n siwr ei bod hi'n amser talu unwaith eto am yr Angor. A fuasech mor garedig a gadael i mi wybod faint sydd ar Mam a finnau i chi. Mae Mam, Mrs Dilys Griffith, yn cael gofal ardderchog mewn cartref preswyl ym Modedern, Ynys Môn. Er nad yw ei chof yn dda iawn bellach mae llun Capel yr Woodlands, Penbedw ar y wal wrth ymyl ei gwely ac yn bwysig iawn ganddi. 'Rwyf wedi llunio cerdd iddi yn sôn am fy atgofion ac efallai y buasai eich darllenwyr yn hoffi ei ddarllen.

**1900**

Chwech oed oedd fy nhaid ac amddifad
Yn hiraethus yn gadael ei famwlad
  Tair ar ddeg oedd Nain
  Cael eu hel oedd rhain
Dan lefain i ennill eu tama'd.

**Cymanfa Ganu'r 50au a 60au**

Dal y bws i Woodside, Birkenhead
Dros y dwr i gyfeiriad Pierhead
  Trwy'r strydoedd lom
  Dan gysgod y bom
Galar a siom mor drist i'w amgyffred.

Atgofion erchyll yn llygaid rhieni
Cymdogaeth i gyd 'di diflanu;
  O dwndwr y stryd
  I hafan fach clyd
A gwyn oedd ein byd ni wrth ganu.

Cael tê bach Cymreig a brechdana'
Teisen cartra' a sgwrs mewn iaith cynta',
  Ac yn ôl drachefn
  Nid hawdd cadw trefn
Ar Blaenwern i gyfeiliant y tonna'

Birmingham? Tildsley? Lle fydd y Gymanfa?
Penri, Caer? Upper Brook Street fydd nesa?
  Edge Lane? Earlsfield Road
  Ynteu Balliol Road?
Ble yw'r nôd i Fedyddwyr y Glanna'

Lle bydd canu Cymraeg ar ei ora'?
Lle bydd pawb yn sicr o'r noda'
  Pa gapel lawn?
  Wel yr Woodlands siwr iawn,
Y capel lle y magwyd inna'

**Heddiw**

Sylfaen cadarn ar aelwyd y Glanna'
Yn hiraethus yn gadael eu cartra'
  Aeth rhain ymhell
  I ganfod byd gwell
Wedi'u cymell gan antur eu teidia'.

*Gyda diolch*
*Enfys Hughes*

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2014. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.

- ***Pris Yr Angor*** yw £10.50 trwy'r post bob mis hyd rhifyn Mai. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **Rhifynnau nesaf yr Angor**
  **i) Rhifyn Mai 2014 –** erbyn bore Llun, 31 Mawrth neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk
  **ii) Rhifyn Mehefin 2014** – erbyn bore Iau, 1 Mai – y lluniau, adroddiadau etc.
  **iii) Rhifyn Gorffennaf 2014** erbyn bore Sadwrn, 31 Mai i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

## *SUL Y PASG*

Gaeaf sanctaidd sydd yn yn y byd yn Wythnos Fawr:
Y ddaear yn weddw, y nefoedd yn grin,
Sŵn ffrewyllu a hoelio ar y finegraidd wynt;
A'r tywyllwch yn tagu Mab y Dyn.

Ond y gwanwyn sy'n dod, ie, dau wanwyn i'r byd
O'r dyfnderoedd ar y trydydd bore-ddydd
Fe ddaw'r lili, y briallu a'r Cenin Pedr
Ar ôl y Gwaredwr o Aifft y pridd.

Gwyrdd a gwyn yw'r gorfoledd, a melyn yw'r mawl
Am i'r Adda newydd godi o'i fedd yn fyw;
A'r iorwg, gan ymglymu am y pren fel hen sarff,
Sydd i ni yn fywyd tragwyddol gyda Duw,

**Gwenallt**
*(allan o'r gyfrol olaf o'i eiddo, Gwreiddiau)*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

**PEARSON COLLINSON**

***TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL***

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol gyda Mr. Alan Hughes ffoniwch 0151 722 1514